



Nicola Corbishley
Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Guildhall
Wreccsam
LL11 1AY

17 Mai 2018

Annwyl Nicola,

Ymgynghoriad ynghylch Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Adneuo (Rheoliad 17) Sir Wreccsam: Sylwadau Llywodraeth Cymru

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch dogfennau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Adneuo Wreccsam. Rydym yn cydnabod bod paratoi CDLI a'r dystiolaeth ategol yn gryn fenter ac yn cydnabod swm y gwaith y mae eich Awdurdod wedi'i wneud hyd yma i symud y cynllun yn ei flaen o gam y Strategaeth a Ffafirir i'r cam Adneuo.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i'r strategaeth sy'n ceisio lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, yn gysylltiedig â rôl a swyddogaeth lleoedd, gan hefyd gefnogi ardaloedd gwledig. Mae'r strategaeth yn sicrhau ystod a dewis o safleoedd o ran graddfa a lleoliad ledled ardal y cynllun. **Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol ar y cyfan i lefel y cartrefi a swyddi a gynigir** pan fo hyn yn cael ei ystyried yn erbyn yr ystod o faterion y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy, megis yr angen dybryd am dai fforddiadwy, lefelau cynyddol o weithgarwch economaidd er mwyn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan Fwrdd Uchelgais Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru ac alinio â'r cyfleoedd hyn.

Bydd dangos sut y bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni'n hanfodol. Mae'r system cynllunio datblygu yng Nghymru'n seiliedig ar dystiolaeth a bydd dangos sut y mae cynllun yn cael ei drefnu gan y dystiolaeth yn un o'r gofynion allweddol wrth archwilio'r CDLI. Mae dangos sut y bydd yr holl safleoedd yn cael eu darparu a dangos hyfywedd y safleoedd hynny yn y CDLI yn hollbwysig, yn enwedig y safleoedd hynny sy'n rhan annatod o'r strategaeth a'r amcanion.

Heb beryglu pwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses a'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol trwy gydol proses y CDLI. Mae'r CDLI Adneuo wedi cael ei ystyried yn unol â'r lefelau cadernid a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru / y Llawlyfr CDLI. **Mae ein sylwadau wedi'u rhannu'n dri chategori sydd wedi'u nodi'n fanwl fesul testun yn yr Atodiad.**

Categori A: Materion sylfaenol yr ystyrir eu bod yn achosi cryn dipyn o risg i'r Awdurdod, os na roddir sylw iddynt cyn y cam cyflwyno, ac a allai dwyn goblygiadau ar gyfer strategaeth y cynllun:

- **Dim**

Categori B: Materion lle ymddengys nad yw'r cynllun adneuo wedi trosi polisi cenedlaethol i'r lefel leol yn foddhaol a lle gall fod tensiynau o fewn y cynllun, sef:

- **Tai Fforddiadwy (Targed a Hyfywedd)**

Categori C: Er nad ydynt yn cael eu hystyried yn hanfodol i gadernid y CDLI, rydym ni o'r farn bod diffyg sicrwydd neu eglurder mewn perthynas â'r materion canlynol:

- **Y Gallu i Gyflawni a Gweithredu - Cyffredinol**
- **Tai – Egluro'r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy, Dosbarthiad Gofodol ac Elfennau Tai**
- **Tai Arbenigol (Sipsiwn a Theithwyr: Polisi Seiliedig ar Feini Prawf a Thai Amlfeddiannaeth)**
- **Ynni Adnewyddadwy – Egluro'r Polisi**
- **Mwynau**

Eich Awdurdod chi sydd i sicrhau bod y CDLI yn 'gadarn' a'r Arolygydd a benodir fydd i benderfynu sut y bydd yr archwiliad yn mynd rhagddo unwaith y caiff y cynllun ei gyflwyno. Dylech ystyried sut i gynyddu i'r eithaf y potensial y bydd eich CDLI yn cael ei ystyried yn 'gadarn' trwy'r broses archwilio. **Byddwn yn hapus i gwrdd i drafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn i'ch CDLI Adneuo** a hoffwn eich annog i gysylltu â mi i drefnu amser sy'n gyfleus i'r ddau ohonom.

Yn gywir,

Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Atodiad wrth Lythyr Llywodraeth Cymru (17 Mai 2018) mewn ymateb i CDLI Adneuo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028

Categori A	Gwrthwynebiadau dan brofion cadernid; <u>materion sylfaenol</u> yr ystyrir eu bod yn achosi cryn dipyn o risg os na roddir sylw iddynt cyn cyflwyno'r cynllun.
Categori B	Gwrthwynebiadau dan brofion cadernid; materion lle ymddengys nad yw'r cynllun adneuo wedi trosi polisi cenedlaethol i'r lefel leol yn foddhaol neu mae tensiynau o fewn y cynllun.
Categori C	Gwrthwynebiadau dan brofion cadernid; er nad ydynt yn cael eu hystyried yn hanfodol i gadernid y CDLI, ceir diffyg sicrwydd neu eglurder mewn perthynas â'r materion y byddai'n ddefnyddiol mynd i'r afael ag ef.

Categori C – Y Gallu i Gyflawni a Gweithredu – Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r Strategaeth Ofodol. Un elfen hanfodol i'r cynllun fydd datblygu safleoedd fesul cyfnod, amseriad safleoedd a'r modd y cânt eu cyflawni, gan sicrhau bod y cynllun yn cyflawni'r raddfa twf ochr yn ochr â seilwaith cysylltiedig, mewn lleoliadau i ddiwallu anghenion dros gyfnod y cynllun. Er bod y sail dystiolaeth yn ychwanegu peth eglurder o ran cynnydd, amseriadau, cyfyngiadau, mecanweithiau ariannu a hyfywedd (yn amodol ar sylwadau ynghylch yr Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy) mae gennym y sylwadau canlynol mewn perthynas â Chyflawni:

- **Gwybodaeth am Gyflawni a Gweithredu yn y cynllun** – Mater allweddol i'r archwiliad fydd pa un a yw'r cynllun yn cynnwys digon o wybodaeth mewn perthynas â gweithredu, cyflawni a monitro'r cynllun. Yn benodol, a ddylai elfennau allweddol o'r egwyddorion uwchgynllunio, profformas cyflawni a'r cynllun seilwaith fod yn y cynllun i sicrhau dylunio da a datblygu cynhwysfawr ar gyfer safleoedd tai a chyflogaeth.
- **Datganiad Tir Cyffredin** – Mae'r Cynllun Seilwaith yn cyfeirio at y bwriad i baratoi Datganiadau o Dir Cyffredin ar gyfer safleoedd tai strategol. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn dangos y bydd safleoedd yn cael eu cyflwyno yn y graddfeydd amser a nodir, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol i'w cyflawni. Mae'n bwysig bod hyrwyddwyr safleoedd yn parhau i fod yn rhan o'r broses a deall pwysigrwydd dangos sut y cânt eu cyflawni. Mae'r sylwadau hyn yn berthnasol i safleoedd cyflogaeth a safleoedd tai anstrategol allweddol hefyd, lle y bo'n berthnasol.
- **Hyblygrwydd a Chyflenwad 5 Mlynedd o Dir ar gyfer Tai** – Ceir gwallau o fewn y Papur Cyflenwad o Dai a'r Gallu i Gyflawni y mae'n ofynnol eu diwygio:
 - Tabl 19: Mae'r Cyflenwad o Dir ar gyfer Tai yn anghywir yn fathemategol gan ei fod yn rhoi cyfanswm y ddarpariaeth tai, nid y gofyniad. Mae'r lwfans hyblygrwydd wedi'i fwriadu i ddarparu ar gyfer safleoedd na fyddant yn cael eu cyflawni, ni fydd byth yn cael ei adeiladu yn ei gyfanrwydd. Mae angen ailgyfrifo'r ffigyrau cyflenwad o dir ar gyfer y cynllun er mwyn sicrhau cyflenwad 5 mlynedd pan gaiff y cynllun ei fabwysiadu a thrwy gydol cyfnod y cynllun.
 - Y llinell 'tai y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau' ar Siart 2: mae'r Graff Tafllwybr yn gamarweiniol gan ei bod yn ymddangos fel ei fod yn rhoi cyfanswm y ddarpariaeth? Dylai roi cyfanswm y tai y mae'n ofynnol eu cwblhau mewn gwirionedd dros weddill cyfnod y cynllun. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw hyblygrwydd uwchlaw llinell y gofyniad sy'n weddill. Mae gofyn gwneud diwygiadau er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o'r data a sicrhau ei bod yn glir os oes/ble y mae hyblygrwydd yn y tafllwybr. Mater i'r Awdurdod ei gyfiawnhau yw'r lefel o hyblygrwydd, gan ystyried materion peidio â chyflawni.

- **Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol** – Dylai'r Cyngor fod yn sicr na fydd diffyg codi Ardoll Seilwaith Cymunedol ac anallu i 'gyfuno' cytundebau A106 yn y dyfodol (y tu hwnt i 5 am bob eitem seilwaith benodol) yn rhwystr i gyflawni safleoedd a seilwaith allweddol.

Categori B - Polisi H2 – Targedau Tai Fforddiadwy / Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Ionawr 2018)

Mae'n hanfodol bod y dystiolaeth ar hyfywedd yn gyfredol ac yn ystyried yr holl gostau hysbys, gan gynnwys lwfans ar gyfer seilwaith priodol. Dylai polisïau Tai Fforddiadwy fod yn seilledig ar dystiolaeth gadarn a bod yn berthnasol i'r mwyafrif o gynlluniau. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y polisi'n gyson â'r sail dystiolaeth ac yn cynyddu'r ddarpariaeth trwy'r CDLI i'r eithaf o ystyried y lefel uchel o angen a'i flaenoriaeth datganedig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod elfennau o'r Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy y mae gofyn eu hegluro. Ceir cwestiynau hefyd o ran sut y mae casgliadau'r gwaith yma wedi cael eu trosi'n dargedau polisi a nodir ym Mholisi H2 o'r cynllun.

- Mae'r dadansoddiad o'r hyn sy'n darged polisi hyfyw a sut y mae'r gwarged am bob uned yn darparu ar gyfer 'cyfraniadau eraill' yn aneglur. Dim ond ar sail targed polisi o 20% drwyddi draw y mae'r dadansoddiad wedi cael ei gwblhau. Byddai wedi bod o fudd ehangu'r tabl hwn i gynnwys yr holl dargedau polisi realistig a'i feincnodi yn erbyn dadansoddiad o'r hyn sy'n ffigwr realistig ar gyfer 'cyfraniadau eraill'. Mae ACLlau eraill wedi defnyddio ystod rhwng £1750 a £10,000 yr uned. Ar hyn o bryd mae'n ansicr a oes gwarged digonol i ddangos bod y 'targedau hyfyw' a awgrymir yn Nhabl 7.3 yn hyfyw, yn enwedig lle ceir gwerthoedd negyddol?
- Mae'r tabl isod yn nodi'r gwarged ar gyfer y targedau a nodir ym mholisi'r cynllun:

Is-ardal (30 annedd yr hectar)	Meincnod Gwerth Tir	Safbwynt Polisi Hyfyw (Wedi'i gymryd o Dabl 7.3 yn yr Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy)		Gwarged am bob uned ar gyfer 'cyfraniadau eraill'	Targed Polisi yn H2	Gwarged am bob uned ar gyfer 'cyfraniadau eraill'
Dwyrain Gwledig	£719,801	40%	£1.05	£11000	40%	£11000
Gogledd Wrecsam a Gresffordd	£464,996	40%	£0.48	£500	40%	£500
De Wrecsam	£368,555	30%	£0.46	£3050	40%	£-1950
Gorllewin Gwledig, Y Waun	£300,000	30%	£0.36	£2000	30%	£2000
Aneddiadau'r Gogledd Orllewin	£174,289	25%	£0.20	£860	30%	-£1140
Cefn Mawr a Rhos	£119,462	0%	£0.03	£-3000	0%	£-3000

- Mae gofyn darparu eglurhad a chyfiawnhad bod y gwerthoedd 'gwarged' yn y tabl uchod yn ddigonol i ddangos bod y targedau ym Mholisi H2 yn hyfyw ac yn gallu darparu ar gyfer 'cyfraniadau eraill'.
- Mae gofyn darparu eglurhad pam nad yw'r targedau ym Mholisi H2 yn gyson â sail dystiolaeth yr Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy mewn perthynas â De Wrecsam ac

Aneddiadau'r Gogledd Orllewin. Mae'r tabl uchod yn dangos y gall hyfywedd yn yr ardaloedd hyn fod yn her ar y lefel benodedig o ystyried y gwerthoedd negyddol.

- Mae'n aneglur a yw'r Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy wedi profi effaith 'systemau chwistrellu' (£3,100 yr annedd)?
- Polisi H2 –dylai gynnwys cyfeiriad at hyfywedd. Er enghraifft, “*man cychwyn ar gyfer trafod, yn amodol ar hyfywedd safleoedd fesul safle unigol*”

Profi Hyfywedd Safleoedd Allweddol – Rydym yn nodi bod yr Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy yn profi sampl o safleoedd mawr yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys llawer o'r safleoedd allweddol yn y cynllun. Mae'r dull yn seiliedig ar y tybiaethau eang o ran hyfywedd yn y profion lefel uchel ond yn cymhwyso elw uwch ar gyfer datblygwyr o 20%. Mae'r astudiaeth yn datgan nad yw costau A106 wedi cael eu cymryd i ystyried yn y profion safle-benodol. Yn debyg i'r dull lefel uchel caiff y safleoedd hyn eu gadael â 'swm dros ben/gwarged' ar gyfer costau A106 yr uned. Nid yw'n glir o'r sail dystiolaeth beth mae gwarged yn ei olygu mewn perthynas â'r gofynion A106, neu sut caiff ei ddeillio. O ystyried y gofynion sylweddol o ran seilwaith a nodir yn y cynllun, mae angen i'r Awdurdod egluro bod y safleoedd hyn yn hyfyw ac y gellir eu cyflawni yn y graddfeydd amser a nodir. (Gweler cyflawni). Nid yw safle strategol allweddol KSS2 fel y'i profwyd yn gyson â'r unedau a brofwyd yn y cynllun?

Categori C Elfennau o'r Cyflenwad o Dai – Egluro'r Dosbarthiad Gofodol a'r Elfennau o'r Cyflenwad o Dai fesul Haen Anheddiad

Dylai'r cynllun gynnwys tabl sy'n nodi dosbarthiad gofodol yr elfennau rhifiadol o'r cyflenwad o dai fesul Haen Anheddiad. Rydym yn nodi bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn sawl lle megis Tabl 1, Tabl 2, SP4, SP5 a Pholisi H1 a sail dystiolaeth y cynllun. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei dwyn ynghyd mewn un lle. Dylai'r cynllun gynnwys tabl tebyg i'r un isod a fydd yn gwella eglurder y cynllun ac yn ei gwneud yn bosibl monitro'n effeithiol.

	Elfennau o'r Cyflenwad o Dai	Haen Anheddiad 1	Haen Anheddiad 2	Haen Anheddiad 3	Haen Anheddiad 4 a.y.b.
A	Cyfanswm y tai a gwblheir (bach a mawr) 01.04.XX – 31/03.XX				
C	Unedau â chaniatâd cynllunio 01.04.20XX				
D	Dyraniadau Tai Newydd				
E	Hapsafleoedd mawr (+5/10) 10 mlynedd ar ôl				
F	Hapsafleoedd bach (-5/10) 10 mlynedd ar ôl				
G	Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai				

Categori C – Targed Awdurdod Cyfan ar gyfer Tai Fforddiadwy / Dosbarthiad Gofodol y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy

- Nid yw'r targed awdurdod cyfan ar gyfer tai fforddiadwy o 1319 o gartrefi'n cael ei nodi yn y cynllun. Dylai hwn fod wedi'i gynnwys mewn polisi yn y cynllun, gallai Polisi SP1 gyfeirio at “*yn gwneud darpariaeth ar gyfer 8525 annedd, y bydd 1319 ohonynt yn rhai fforddiadwy*”
- Roedd y Papur Cyflenwad o Dai a'r Gallu i Gyflawni yn cynnwys dadansoddiad o gyfraniadau tai fforddiadwy fesul elfen o'r cyflenwad o dai. Byddai tabl sy'n nodi'r cyfraniadau tai fforddiadwy a ragwelir fesul haen o gymorth i wneud y cynllun yn fwy eglur ac i fonitro'n effeithiol.

Categori C – Sipsiwn a Theithwyr – Lefel yr Angen a'r Ddarpariaeth (Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr / Y Gallu i Gyflawni Safleoedd / Polisi H5

Lefel yr Angen a'r Ddarpariaeth – Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn datgan bod lefel yr angen dros gyfnod y cynllun yn 28 llain breswyl, y mae 15 ohonynt yn rhai a ddarperir ar unwaith (erbyn 2020). Mae'r Cyngor yn nodi yn y Cynllun Adneuo bod safleoedd wedi cael caniatâd ers cyhoeddi'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n golygu mai 25 llain yw'r angen gweddillol am gyfnod y cynllun, y mae 6 ohonynt yn rhai a ddarperir ar unwaith (erbyn 2020). Mae Polisi H4 yn dyrannu tri safle ag 8 llain (24 llain) i ddiwallu'r angen dynodedig. Mae hwn yn ymateb cadarnhaol i'r sail dystiolaeth ac yn cael ei gefnogi. Mae'r Awdurdod wedi cadarnhau bod yr un llain sy'n weddill yn debygol o gael ei darparu trwy drafodaethau parhaus ynghylch safleoedd preifat. Bydd angen i'r Awdurdod ddarparu diweddiariad ar sefyllfa hon ar gyfer yr archwiliad, gan sicrhau bod y cynllun yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer yr angen a adnabuwyd.

Addasrwydd Safleoedd a'r Gallu i'w Cyflawni – Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod modd cyflawni safle i ddiwallu'r angen canolradd erbyn 2020. O ran y dyraniadau sy'n weddill, mae angen i'r materion o ran safleoedd a nodir yn y Papur Dethol Safleoedd gael eu hunioni i gyflawni'r lleiniau angenrheidiol erbyn 2028.

Polisi H5 - Polisi Sipsiwn a Theithwyr sy'n Seiliedig ar Feini Prawf – Mae maen prawf (i) yn groes i bolisi cenedlaethol. Mae'n awgrymu bod gan Sipsiwn a Theithwyr ryddid cyfyngedig i symud i ddatblygu safleoedd mewn awdurdodau lleol eraill. Gellir ystyried bod hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan fod Sipsiwn a Theithwyr yn llai tebygol o fod â chysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod lleol penodol.

Categori C – Polisi H9: Tai Amlfeddiannaeth

Byddai'r polisi'n cael ei gryfhau pe bai maen prawf (ii) yn nodi'n eglur beth sy'n "grynhoad gormodol" ym marn yr ACLI. Mae angen i ACLIau sicrhau bod polisi'r CDLI, a ehangir trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol (os yn briodol) yn darparu sail effeithiol i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth. Bydd angen i'r awdurdod sicrhau bod y polisi'n cael yr effaith a fwriedir. Er mwyn cyrraedd y nod hwn dylai'r polisi nodi pa lefel yr ystyrir ei bod yn "grynhoad gormodol" a ble y byddai, neu na fyddai, yn gymwys yn ofodol.

Categori C Polisi Ynni Adnewyddadwy ac Asesiad Ynni Adnewyddadwy / Polisi RE2

Mae'r polisi ategol Asesiad Ynni Adnewyddadwy RE2 yn gyson fwy neu lai â pholisi cenedlaethol a'r fethodoleg yn y pecyn cymorth. Mae gennym y sylwadau canlynol:

- Dylai'r Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd arfaethedig ar gyfer ynni gwynt ac ynni solar ffotofoltaig a ddyrennir gan y polisi hwn gael eu rhestru'n benodol yn y cynllun ynghyd â'r cyfraniadau o bob safle.
- Polisi RE2 – bydd angen i'r awdurdod fod wedi'i argyhoeddi bod y meini prawf yn ddigon eang i ystyried ystod o dechnolegau Ynni Adnewyddadwy.

Categori C - Llifogydd

Dylai'r ACLI ddangos ei fod wedi cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a bod yr holl ddyraniadau'n gallu derbyn maint y twf a gynigir ac y gellir eu cyflawni.

Categori C - Mwynau

Polisi SP17: Cyflenwad o Fwynau a Diogelu Mwynau – Mae angen i'r Cyngor ddangos sut y bydd diffyg o 3.84 miliwn o dunelli o graig wedi'i malu yn cael ei ddarparu. Os mai "trwy estyniad i chwarel bresennol yn Sir y Flint" y mae hynny, byddai 'Datganiad Tir Cyffredin' a dyraniad yn fuddiol.

Polisi MW3: Cyflenwad Cynaliadwy o Fwynau (Ardaloedd Eithrio Cloddio) – Nid yw Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (ymgyngori, Mai 2018) ond yn ei gwneud yn ofynnol diogelu adnoddau glo crai a dynodi ardaloedd lle na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol (para 4.163). Er ei bod yn rhy gynnar i fabwysiadu'r newid polisi hwn, os bydd yn dod yn bolisi cenedlaethol cyn/yn ystod yr archwiliad, dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y cynllun.

Categori C – Map cynigion

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai dynodiadau gael eu cynnwys ar y map cynigion lle bynnag y bo'n ymarferol. Fel sylw cyffredinol, mae'r Map Cynigion wedi'i droshaenu â pheth wmbredd o ddata / dynodiadau y gellir adnabod llawer ohonynt yn ôl lliwiau / patrymau tebyg. Rydym yn nodi nad oes gan yr Awdurdod Fap Cyfyngiadau. Mae llawer o gynlluniau a fabwysiadwyd yng Nghymru wedi cynnwys y dynodiadau hynny yr ystyrir eu bod y tu hwnt i'w rheolaeth (h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW a Llywodraeth Cymru) ar Fap Cynigion ar wahân er mwyn gwella eglurder y Map Cynigion a'i gwneud yn bosibl ei ddiweddarau'n rheolaidd gan nad yw'n rhan o'r cynllun datblygu.

Categori C – Monitro

Mae fframwaith monitro'r Cyngor yn darparu man cychwyn da ac mae'n amlwg bod yr Awdurdod wedi bwrw golwg ar fframweithiau monitro eraill y bydd angen eu mireinio trwy'r sesiynau archwilio.
